Pecyn Pontio **Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant**

Croeso i'r pwnc a'r Adran

Hoffwn eich croesawu i'r adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant ble byddwch yn astudio cymhwyster Uwch Gyfrannol (UG) yn ystod Blwyddyn 12 a chymhwyster Safon Uwch (SU) llawn ym Mlwyddyn 13. Mae hwn yn gymhwyster newydd a chyffrous ble mae nifer o bynciau diddorol yn cael ei astudio e.e. pwysigrwydd cadw'n iach, darpariaeth sydd ar gael yn lleol ac yn genedlaethol ar gyfer cefnogi unigolion i arwain bywydau iach a llawn. Rydym yn adran glós a gweithgar ac edrychwn ymlaen i gael cyd-weithio hefo chi.

Dyma'r linc ar gyfer y fanyleb a fydd yn rhoi arweiniad llawn i'r cynnwys. Mae'n syniad da eich bod yn ymgyfarwyddo a hwn cyn cychwyn ar y cwrs ym mis Medi. Yn ystod Blwyddyn12 byddwn yn astudio Uned 1 ac Uned 2.

https://www.cbac.co.uk/media/wvcblkj3/wjec-gce-hsccc-draft-spec-for-website-w-24022020-black.pdf

Yn ystod y ddwy flynedd byddwch yn datblygu nifer o sgiliau hanfodol er mwyn eich paratoi ar gyfer astudiaethau pellach neu fyd gwaith.

Un o'r prif sgiliau fydd gwydnwch er mwyn medru dygymod â heriau cyrsiau Safon Uwch fel eich bod yn gallu datrys problemau a dyfalbarhau er mwyn llwyddo hyd eithaf eich gallu yn y pwnc. Bydd datblygu sgiliau cyfathrebu effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig yn hanfodol os ydych am weithio o fewn y maes Iechyd a Gofal a bydd datblygu sgiliau gweithio mewn tîm yn effeithiol yn bwysig iawn hefyd.

Gwaith Cychwynnol

Mae deall strwythur ein system iechyd yn ffurfio sylfaen ein astudiaethau yn y pwnc yma. Defnyddiwch y lincs isod er mwyn casglu gwybodaeth am y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol (NHS). Ceisiwch wneud rhestr o 30 ffaith am y GIG.
https://www.bbc.co.uk/newsround/38906932
https://www.youtube.com/watch?v=0pnEMBgEG24
https://www.bbc.co.uk/news/health-44560590

Gosod gwaith ymchwil

Hoffwn i chi ymchwilio i'r swyddi canlynol. Defnyddiwch y lincs i gasglu gwybodaeth am beth yw'r gwaith maen nhw yn ei wneud, pa gymwysterau maen nhw ei angen a pha sgiliau personol maen nhw ei angen. Lluniwch daflen wybodaeth ar bob un swydd yn cynnwys yr hyn yr ydych wedi ei ddarganfod.

1. **Meddyg Teulu.**
https://www.prospects.ac.uk/job-profiles/general-practice-doctor
https://www.bbc.co.uk/programmes/p089fd2v (rhaglen Helo Syrjeri ar S4C)

2. **Bydwraig.**
https://www.healthcareers.nhs.uk/explore-roles/midwifery/roles-midwifery/midwife.
https://www.bbc.co.uk/iplayer/episode/m000hk2g/life-and-birth-series-1-episode-1

3. **Gweithiwr Cymdeithasol.**
https://www.prospects.ac.uk/job-profiles/social-worker
https://www.healthcareers.nhs.uk/explore-roles/wider-healthcare-team/roles-wider-healthcare-team/clinical-support-staff/social-worker

Rhestr ddarllen sy'n cwmpasu'r pwnc

https://www.nhs.uk/live-well/eat-well/
https://www.bbc.co.uk/bitesize/guides/zk92msg/revision/2
https://www.bbc.co.uk/bitesize/guides/zk92msg/revision/3

Beth yw'r cynnig rhagweithiol?
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/pecyn-gwybodaeth-gweithredur-cynnig-rhagweithiol-iechyd_0.pdf

Mwy na geiriau
https://www.youtube.com/

Gwaith Ail-ymgyfarwyddo efo sgiliau/gwybodaeth TGAU

Ceisiwch ymweld â'r rhannau canlynol o waith TGAU er mwyn eich cynorthwyo i ddeall cynnwys y pwnc hwn yn well.

Ffactorau iechyd a lles
nodweddion personol: yn cynnwys rhyw, oedran, grŵp ethnig, a ffactorau etifeddol
ffactorau ffordd o fyw: yn cynnwys ymddygiadau fel deiet, ysmygu, defnydd o alcohol, camddefnyddio sylweddau ac ymarfer corff
amodau byw a gweithio: yn cynnwys mynediad a chyfleoedd mewn perthynas â swyddi, tai, addysg a gwasanaethau gofal
amodau economaidd-gymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol: yn cynnwys ffactorau fel tlodi, incwm gwario, iaith (dwyieithog, amlieithog), natur wledig ac argaeledd gwaith